



Byw yn fy nghartref



Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Byw yn fy nghartref, a materion sy'n effeithio ar fy nhenantiaeth

Anifeiliaid anwes



Cofiwch fod yr hyn rydych chi'n ei wneud yn eich cartref yn medru effeithio ar eraill. Felly rydym ni'n gofyn i'n holl denantiaid ac aelodau eu haelwyd i ystyried pobl eraill a dangos parch at eu cymdogion.

Fel arfer, byddwn yn caniatáu i chi gadw un anifail anwes cyn belled fod eich cartref yn addas ar ei gyfer a'ch bod chi'n medru dangos eich bod chi'n berchennog cyfrifol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi gael ein caniatâd i gadw anifail anwes yn eich cartref.

- mae'n rhaid i'r anifeiliaid anwes fod yn addas ar gyfer maint eich cartref a'r math o gartref rydych chi'n byw ynddo a heb eu gwahardd dan y Ddeddf Cŵn Peryglus neu unrhyw ddeddfwriaeth arall
- os ydych chi'n dymuno cadw ci dylech ystyried sut rydych chi'n mynd i ofalu amdano a'i hyfforddi, a sut y gallai effeithio ar eich cymdogion
- ni chewch ddefnyddio eich cartref i fridio unrhyw anifeiliaid i'w gwerthu
- mae'n rhaid i chi lanhau ar ôl eich anifeiliaid, yn cynnwys yn eich gardd eich hun. Mae'n bosibl i chi gael dirwy neu fynd i'r llys os caniateir i'ch anifail anwes faeddu mewn ardaloedd cyhoeddus neu os caniateir iddo grwydro
- ni chewch adael i'ch anifail darfu ar neu ypsetio pobl eraill, er enghraifft, cyfarth yn ddibaid y tu mewn neu'r tu allan i'ch cartref

Gallwn eich atal rhag cael anifail anwes os nad ydych chi'n berchennog cyfrifol. Helpwch ni drwy gadw eich anifail anwes dan reolaeth.

Os ydych chi'n cael problemau efo anifail anwes cymydog cysylltwch â'ch swyddfa leol. Hefyd, os ydych chi'n sylwi ar unrhyw gŵn neu anifeiliaid strae yn crwydro dylech hysbysu Gwasanaeth Wardeiniaid Cŵn eich cyngor lleol.

Rydych chi'n gyfrifol am:

- gadw'r ardd yn daclus, heb ddim sbwriel
- peidio â gadael iddi ordyfu, tocio llwyni, gwrychoedd a choed i wneud yn siŵr nad ydynt yn niwsans
- atal llwyni neu blanhigion dringo rhag difrodi'r gwaith brics neu achosi problemau tamprwydd
- cynnal a chadw nodweddion fel patio, teras neu ffensys rydych chi wedi'u gosod

Gallwch wneud unrhyw waith tirlunio a phlannu rhesymol, ond bydd arnoch angen ein caniatâd ni i:

- osod garej, sied neu dŷ gwydr
- gosod patio, grisiau neu lain galed
- adeiladu wal neu farbeciw
- parcio car, motobeic, carafan, cerbyd masnachol, cwch neu drelar yn yr ardd
- torri, difa neu gael gwared ar unrhyw lwyni, gwrychoedd neu goed

Os ydych chi'n rhannu gardd efo trigolion eraill, fel arfer bydd gennych gyfrifoldeb ar y cyd am yr ardd a rhaid i chi gymryd eich tro i ofalu amdani. Os na fedrwch chi gytuno sut i wneud hyn fe wnawn ni'r penderfyniad. Hefyd, os gofynnir i ni neu os oes rhaid i ni wneud y gwaith bydd rhaid i chi dalu cost y gwaith. (Gweler tâl gwasanaeth yn Adran 5).



A ydw i'n cael rhedeg busnes o'm cartref?

Cysylltwch â ni ar unwaith os ydych chi'n meddwl am gynnal busnes o'ch cartref. Mae eich Cytundeb Tenantiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi gael ein caniatâd ni cyn dechrau unrhyw fusnes. Rydym ni'n fodlon i ohebiaeth busnes gael ei anfon i'ch cartref, ond ni wnawn ganiatáu cynnal rhai mathau o fusnesau yn eich cartref, yn enwedig os yw'n effeithio ar eich cymdogion, er enghraifft, trwsio ceir neu fusnes tacsî.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth adrannau Cynllunio a Threth Cyngor eich Awdurdod Lleol os ydych chi am sefydlu busnes.

Byddwn yn gweithredu yn erbyn unrhyw denant sy'n defnyddio eu cartref at ddibenion anghyfreithlon neu anfoesol.

Sut ydw i'n cael gwared ar sbwriel?



Dylech roi eich sbwriel yn yr wîli-bin neu finiau eraill a ddarparwyd i chi gan y cyngor. Bydd y rhain yn cael eu gwagio yn rheolaidd. Gofynnwch i'ch cymdogion beth yw'r trefniant casglu arferol. Gofynnwn i chi roi'r biniau ar y stryd y noson cyn y diwrnod casglu yn unig, a'i ddychwelyd i fan storio diogel cyn gynted ag y bo modd ar ôl casglu'r sbwriel.

Byddwch yn ystyriol tuag at eich cymdogion wrth osod eich wîli-bin y tu allan i'ch cartref. Gwnewch yn siŵr nad yw'n blocio'r fynedfa i'ch cartref, y llwybr troed na'r ffordd. Mewn blociau o fflatiau efallai fod y biniau yn rhai ar y cyd neu fod yno fan casglu sbwriel penodol. Mewn achosion o'r fath gofynnwn i'r holl drigolion gadw'r ardal honno'n glir o unrhyw beryglon.

Tanau

Peidiwch â llosgi eich gwastraff: gall y mwg fod yn niwsans i gymdogion.

Gwastraff swmpus

Os oes gennych chi lawer o wastraff neu eitemau mawr rydych chi am gael gwared arnynt, dylech un ai fynd â'r rhain i'r ganolfan ailgylchu leol neu gysylltu â'r cyngor lleol i weld a ydynt yn cynnig gwasanaeth casglu 'gwastraff swmpus'. Peidiwch â defnyddio eich gardd neu unrhyw fannau cymunedol eraill i storio sbwriel nac eitemau swmpus.

Anogwn ein holl denantiaid i ailgylchu gymaint ag y bo modd. (Darllenwch y paragraffau dan y pennawd "Gofalu am yr Amgylchedd" ar ddiwedd yr adran hon.)

Plâu a fermin

Cadwch blâu ymaith drwy beidio â gadael bwyd na sbwriel y tu allan lle y gall ddenu adar, llygod neu lygod mawr. Os oes pryfed neu anifeiliaid gwyllt yn achosi trafferthion i chi cysylltwch â'ch cyngor lleol am gyngor.

Parcio

Byddwch yn ystyriol tuag at eich cymdogion pan ydych chi neu rai sy'n ymweld â chi yn parcio. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn blocio mynedfeydd na cheir eraill ar y ffordd.

Byddwn yn trafod lle rydym ni'n disgwyl i chi barcio pan fyddwch chi'n symud i mewn i'ch cartref:

- rhaid i chi barcio mewn llefydd parcio wedi eu marcio neu eu dynodi yn unig
- ni ddylech barcio car, motobeic, carafan, cerbyd masnachol, cwch neu drelar wrth eich cartref neu yn unrhyw ardaloedd cymunedol oni bai eich bod wedi cael ein caniatâd ni

Byddwn yn gweithredu i symud eich cerbyd oddi yno os nad yw wedi'i drethu, os nad yw'n addas i'w ddefnyddio ar y ffordd, os yw wedi ei barcio yn anghyfreithlon ar balmant, llwybr troed neu ardal glaswellt neu os yw'n achosi perygl neu rwystr.

Mannau parcio cymunedol

Os ydych chi'n parcio mewn unrhyw fan parcio cymunedol neu lecyn parcio ar y cyd rydych chi'n gwneud hynny ar eich risg eich hun. Os yw eich car yn cael ei ddifrodi yn y manau hyn bydd angen i chi hawlio yn erbyn eich yswiriant car.



- ni all teulu gadw lle parcio penodol oni bai ei fod yn fan parcio anabl dynodedig wedi ei neilltuo ar eich cyfer chi
- mae'n bosibl y gwnawn ni gytuno ar faint o fannau parcio ger eich cartref y cewch eu defnyddio. Os ydym ni'n gwneud hyn, gofynnwn i chi sicrhau nad ydych chi na'ch ymwelwyr yn defnyddio mwy na'r nifer o leoedd parcio a ddyrannwyd i chi
- ni chewch ddefnyddio'r manau parcio ceir na dreif eich cartref i wneud gwaith trwsio sylweddol i gerbydau, na chynnal busnes trwsio cerbydau
- byddwch yn ystyriol tuag at eich cymdogion a'u hanghenion parcio bob amser

Garejis

Os oes gennych chi garej yn eich cartref, gofynnwn i hwn gael ei ddefnyddio at y diben y'i darparwyd ac nid ar gyfer storio cyffredinol. Yn benodol, rhaid i chi fod yn ofalus iawn wrth storio unrhyw eitemau peryglus a allai ffrwydro neu fynd ar dân (fel petrol, olew, nwy potel neu ddeunyddiau eraill). Rhaid iddynt gael eu storio mewn cynwysyddion cymeradwy bob amser (peiriant torri gwair, barbeciw nwy, gwresogyddion patio). Ni chewch ddefnyddio'r garej yn gysylltiedig ag unrhyw fusnes neu grefft.

Byw mewn fflat

Os ydych chi'n byw mewn fflat disgwyliwn i chi fod yn ystyriol tuag at eich cymdogion ac ystyried oblygiadau iechyd a llês ehangach byw ar y cyd.

Landin, grisiau, llefydd sychu dillad a manau cymunedol eraill

Dylid cadw'r holl fannau hyn yn glir o unrhyw annibendod. Peidiwch â storio unrhyw beth y tu allan i'ch fflat neu mewn man cyffredin a allai achosi rhwystr neu berygl i eraill sy'n byw yn neu'n ymweld â'r eiddo, er enghraifft, biniau ailgylchu, sgwteri mudoled, pramiau, dodrefn, beics, motobeic ac ati.

Drysau tân

Rhaid sicrhau nad oes rhwystrau wrth ddrysau tân, a'u cadw ar gau bob amser. Peidiwch byth â rhoi plocyn i gadw drws tân ar agor am unrhyw reswm.

Larwm tân

Mae panelau larwm tân wedi eu gosod mewn rhai manau cymunedol. Ffoniwch Grŵp Cynefin os oes unrhyw un o'r isod yn digwydd:

- goleuadau rhybudd yn fflachio ar y panel larwm
- unrhyw fandaliaeth yn y llefydd cymunedol
- y larwm tân yn canu
- unrhyw bryderon eraill

Mae'n anghyfreithlon ysmegu yn y manau cymunedol.

Rhaid i chi wybod beth yw'r weithdrefn dianc rhag tân yn eich fflat - mae copi ar gael yn eich ardal gymunedol. Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â dianc rhag tân, cysylltwch â'ch Swyddog Tai.

Sbwriel

Peidiwch â gadael bwyd na sbwriel lle y gall achosi niwsans i gymdogion. Defnyddiwch y biniau a ddarparwyd, gan sicrhau eich bod yn rhoi eich sbwriel yn y bin ac nid wrth ei ymyl.

Dilynwch unrhyw gyfarwyddiadau ailgylchu a roddwyd gan y Cyngor. Gwnewch yn siŵr eich bod yn lapio sbwriel miniog, gwlyb neu sy'n pydru cyn eu rhoi yn y bin. Os ydym ni'n derbyn cwynion gan gymdogion neu'r Cyngor am waredu sbwriel yn anghywir, byddwn yn codi tâl arnoch chi am unrhyw gostau gwaredu sbwriel a ddaw i'n rhan.

Glanhau

Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw'r trefniadau i gadw'r mannau cymunedol yn lân pan fyddwch yn symud i mewn. Lle nad yw'r Gymdeithas yn darparu gwasanaethau glanhau'r mannau cymunedol, mae glanhau'r grisiau, cynteddau a'r landin yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng yr holl drigolion sy'n byw yno.

Disgwylir i drigolion helpu i gadw'r llefydd yma'n daclus hefyd a gadael i ni wybod os oes unrhyw broblemau. Byddwn yn archwilio'r mannau yma yn rheolaidd i sicrhau fod tenantiaid yn cadw at y trefniadau.

Anifeiliaid anwes

Peidiwch â chadw anifeiliaid anwes ar risiau, landin na mannau cymunedol eraill, na chaniatáu iddynt grwydro, a gwnewch yn siŵr nad ydynt yn niwsans nac yn berygl i gymdogion.

Sŵn

Mae'n haws clywed a throsglwyddo sŵn rhwng lloriau a waliau mewn fflatiau. Felly rydym ni'n disgwyl i gymdogion fod yn arbenig o ystyriol a pharchus at ei gilydd.

Signal teledu

Mae erial teledu digidol ar y cyd ymhob un bloc fflatiau. Os ydych chi'n cael trafferthion efo'ch derbyniad teledu, holwch eich cymdogion yn gyntaf i weld a ydynt yn cael problemau tebyg ac os nad ydynt mae hynny'n awgrymu bod nam ar eich teledu chi. Os oes problem gyffredin hysbyswch ni am y mater.



Dysglau lloeren

Os ydych chi am osod dysgl lloeren, erial neu olau allanol, bydd angen i chi gael ein caniatâd ni a chael caniatâd cynllunio hefyd, yn dibynnu ar lle rydych chi'n byw.

Os rhoir caniatâd i osod dysgl lloeren ar yr eiddo, mae'n rhaid i chi sicrhau nad ydych chi'n difrodi'r adeilad ac, os ydych chi'n symud, rhaid i chi adfer y gwaith. Rydym ni'n annhebygol o ganiatáu i chi osod y ddysgl ar flaen yr eiddo. Hefyd, os ydych chi'n byw yn y Parc Cenedlaethol neu ardal wedi'i dynodi yn Ardal Gadwraeth, rhaid cael caniatâd cynllunio cyn gosod y ddysgl.

Ers Ebrill 2009, ni chaniateir i drigolion fflatiau osod dysglau lloeren unigol eu hunain. Fodd bynnag, yn amodol ar y rheolau cynllunio, bydd y Gymdeithas yn rhoi caniatâd i drigolion wneud cais am ddysgl lloeren teledu digidol ar y cyd. Bydd angen cytuno ar leoliad y ddysgl ymlaen llaw.

Gofalu am yr amgylchedd

Medrwy helpu i warchod yr amgylchedd drwy ddilyn camau gweithredu syml. Fe allech chi arbed arian yr un pryd.

Arbed dŵr

- os oes gennych chi ardd, casglwch ddŵr glaw mewn casgen ddŵr a defnyddio'r dŵr yma i ddyfrio eich planhigion neu olchi'r car
- cymerwch gawod yn lle bath
- peidiwch â gadael y tap yn rhedeg wrthi chi lanhau eich dannedd neu olchi llestri
- arhoswch nes fod gennych chi lwyth llawn cyn defnyddio eich peiriant golchi
- os ydych chi'n golchi eich car gartref, defnyddiwch bwced, nid pibell ddŵr na pheiriant jetolchi



Ailgylchu

Mae'r rhan fwyaf o'n sbwriel a'n gwastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi lle mae'n cael ei gladdu. Medrwch helpu i leihau hyn drwy ddidoli'r eitemau y gellir eu hailgylchu. Cewch fwy o wybodaeth am y mentrau ailgylchu yn eich ardal chi drwy gysylltu â'ch cyngor lleol.

Os ydych chi'n cael gwared ar hen ddrillad, llyfrau neu eitemau eraill, meddyliwch am fynd â nhw i siop elusen leol, digwyddiad codi arian neu sêl cist car. Wyddoch chi ddim, efallai y bydd rhywun arall eisiau neu'n medru gwneud defnydd o'r eitemau rydych chi'n meddwl eu taflu.

Defnyddio llai o drydan a nwy ac arbed arian i chi eich hun

Mae canran fawr o'r holl allyriadau carbon deuocsid sy'n cael eu rhyddhau i'r awyr yn dod o'r ynni (nwy, trydan, tanwydd caled) rydym ni'n ei ddefnyddio yn ein cartref. Dyma un o'r prif nwyon sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang a newid yn yr hinsawdd. Medrwch arbed arian a helpu i leihau allyriadau carbon drwy ddilyn y cynghorion isod a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Rhestr wirio ynni

- Trowch eich thermostat i lawr. Gallai lleihau tymheredd stafell 1°C dorri hyd at 10% ar eich biliau.
- Caewch eich llenni wrth iddi dywyllu er mwyn atal gwres rhag dianc drwy'r ffenestri
- Diffoddwch y golau bob tro wrth adael stafell
- Peidiwch â gadael offer trydanol yn y modd segur a chofiwch beidio â gadael offer yn gwefru'n ddianghenraid

- Os nad ydych chi'n llenwi'r peiriant golchi, y peiriant sychu dillad neu'r peiriant golchi llestri, defnyddiwch y rhaglen economi neu hanner llwyth
- Berwch y tegell efo faint o ddŵr sydd ei angen a dim mwy (ond cofiwch orchuddio'r elfennau os ydych chi'n defnyddio tegell trydan)
- Mae tap dŵr poeth yn driplan yn gwastraffu ynni ac mewn un wythnos mae'n gwastraffu digon o ddŵr poeth i lenwi hanner bath, felly trefnwch i drwsio tapiau sy'n gollwng a gwnewch yn siŵr eu bod wedi eu cau yn iawn!
- Defnyddiwch fylbiau golau sy'n arbed ynni. Gall un yn unig arbed £100 i chi dros oes y bwlb – a gallent ddal i oleuo am hyd at 12 gwaith yn hirach na bylbiau golau cyffredin. Mae amrywiaeth o steiliau ar gael
- Pan fyddwch chi'n prynu offer newydd chwiliwch am y logo 'Energy Saving recommended' bob tro. Yr offer sy'n arddangos y logo yma yw'r rhai mwyaf effeithlon yn eu categori ac fe allent arbed hyd at £37 y flwyddyn i chi

Cewch ragor o gyngor a chanllawiau arbed ynni diduedd, am ddim, gan ein Wardeiniaid Ynni **0300 111 2122** neu ffoniwch y **Llinell Gyngor ar Ynni ar 0800 954 0658** neu edrych ar wefan <http://www.energysavingtrust.org.uk>

Pwy gaiff fyw efo mi yn fy nghartref?

Newidiadau i'ch Aelwyd

Caiff unrhyw aelod o'ch teulu agos rannu eich cartref. Fodd bynnag, ni ddylech orlenwi eich cartref. Mae'n rhaid i chi ein hysbysu ni ar unwaith os oes unrhyw un yn dod i fyw efo chi neu os oes rhywun yn symud o'r cartref. Os ydych chi'n derbyn budd-daliadau gallai'r newidiadau hyn gael effaith ar faint o fudd-daliadau gewch chi.

Beth os yw fy sefyllfa yn newid?

Os yw eich teulu yn tyfu a bod eich cartref yn mynd yn rhy fach, fe allwch chi wneud cais i drosglwyddo i gartref mwy, neu os nad oes angen cartref maint teulu arnoch mwyach efallai y medrwn ddod o hyd i gartref llai i chi. Edrychwch ar yr adran "Symud i Fyw" am fwy o gyngor ac arweiniad ar sut i wneud cais am drosglwyddiad.

Tor-perthynas

Os yw eich perthynas yn chwalu mae angen i chi weithredu'n gyflym i warchod eich hawliau. Os ydych chi'n bryderus dylech gysylltu â ni yn y swyddfa leol i drafod y mater.

Fy hawliau

- mae gan gyd-denantiaid hawliau cydradd i aros yn y cartref, ond gall y naill neu'r llall derfynu'r denantiaeth
- os nad ydych chi'n gyd-denantiaid, mae gan yr unigolyn y mae ei enw ar y cytundeb tenantiaeth yr hawl i ofyn i'w partner adael. Fodd bynnag, os ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil, mae gennych yr hawl i aros er efallai y bydd rhaid i chi fynd i'r llys i gael penderfyniad am bwy sy'n mynd i symud o'r cartref
- os oes gennych chi blant yn byw gyda chi fel arfer, bydd llys yn rhoi blaenoriaeth i'w buddiannau nhw i wneud yn siŵr na fyddant yn ddigartref. Mewn achosion o'r fath bydd y llys yn gorchymyn trosglwyddo'r denantiaeth i'r rhiant â'r prif gyfrifoldeb am y plant
- os yw'r tenant yn gadael y cartref gallai aelodau penodol o'r aelwyd sy'n parhau i fyw yno gymryd y denantiaeth



Os yw fy mhartner (sydd wedi ei enwi fel tenant) wedi gadael y cartref beth ddylwn i ei wneud?

Dylech geisio cael cadarnhad ysgrifenedig ei fod/bod yn barod i roi'r gorau i'r denantiaeth. Os nad yw hyn yn bosibl efallai y bydd angen i ni anfon hysbysiad atynt cyn y medrwn dynnu'r enw oddi ar y denantiaeth. Bydd eich hawl chi i aros yn y cartref yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Beth fedra' i ei wneud os ydw i'n dioddef trais yn y cartref?

Os ydych chi'n cael eich bygwth â, neu'n dioddef trais yn y cartref gan aelod o'ch aelwyd neu gyn-bartner, yna cysylltwch â'n swyddfa leol am gymorth. Rydym wedi ymrwymo i helpu unrhyw un sy'n byw mewn eiddo Grŵp Cynefin sy'n dioddef bygythiadau neu ymgais i gam-drin neu'n dioddef trais. Gallwn weithredu yn erbyn unrhyw un sy'n byw mewn eiddo Grŵp Cynefin a geir yn euog o drais yn y cartref. Edrychwch ar yr adran ar wasanaethau cefnogaeth ychwanegol a rhifau ffôn defnyddiol am fwy o gyngor ac arweiniad.

Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw gweithredu mewn modd sy'n "achosi neu'n debygol o achosi aflonyddwch, ofn neu achosi gofid i un neu fwy nag un person nad ydynt o'r un cartref" (Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998)

Enghreifftiau o ymddygiad y gellir ei ddisgrifio fel ymddygiad gwrthgymdeithasol yw:

- fandaliaeth, graffiti neu ollwng sbwriel
- niwsans sŵn
- ymddygiad bygythiol neu ymddygiad sy'n codi braw
- cam-drin geiriol
- aflonyddu hiliol
- troseddau cerbydau
- camddefnyddio tân gwyllt
- ymddygiad hwligenaidd a grwpiau bygythiol

Nid yw hon yn restr gyflawn a gall mathau eraill o ymddygiad gael eu cyfri yn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bydd unrhyw fath o aflonyddu, cam-drin geiriol neu gam-drin corfforol yn cael eu hystyried yn weithredoedd difrifol. Ni fedrwn dderbyn unrhyw fath o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cartrefi.

Beth fedra' i ei wneud?

Byddwch yn barchus ac ystyriol tuag at eich cymdogion bob amser:

- Cadwch lefel sain eich system gerddoriaeth, teledu a radio yn rhesymol bob amser
- Gadewch i'ch cymdogion wybod os ydych chi'n bwriadu cynnal parti. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn deall eu bod yn debygol o glywed mwy o sŵn i raddau ond gwnewch yr hyn a fedrwn i osgoi eu tramgwyddo drwy gadw lefel y sŵn a'r gerddoriaeth i'r isafswm a chadw rheolaeth ar eich gwesteion
- Cadw eich anifeiliaid anwes dan reolaeth, glanhau ar eu holau a peidio â gadael iddynt wylltio ac ypsetio bobl eraill.

Rydym ni am i bobl ein helpu i weithredu'n gadarn yn erbyn unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol. Os ydych chi'n cael problemau gwnewch yr hyn a fedrwn yn gyntaf – er enghraifft, gofyn i'ch cymydog dawelu'r sŵn yn hwyr y nos. Ond os yw'r problemau'n parhau, neu'n fwy difrifol, hysbyswch ni am ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y medrwn ni eich helpu.

Beth all Grŵp Cynefin ei wneud?

Os ydych chi'n gwneud cwyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol fe wnawn ni ein gorau glas i helpu; dyma ein ymrwymiad i chi. Mae gennym ni daflen i esbonio'r camau y dylech eu cymryd a rhestr wirio syml i chi ei dilyn (gofynnwch am gopi neu lawrlwythwch un o'n gwefan).

Fe wnawn ni bopeth a fedrwn i'ch gwarchod rhag aflonyddu a niwsans, lle bo gennym ni dystiolaeth o hyn. Rydym ni'n chwarae rhan bwysig yn gweithio efo'r gymuned, yr heddlu a gwasanaethau eraill. Gallwn gynorthwyo i amddiffyn cymunedau rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i atal rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Os nad ymdrinnir â phroblemau yn gyflym mae'r rhai sy'n creu trafferthion yn teimlo eu bod yn medru parhau i ymddwyn yn anghymdeithasol. Mae'n rhaid i ni rybuddio pobl am eu hymddygiad a gweithredu ar fyrder os nad ydynt yn ei newid. Fe wnawn ni ddefnyddio'r holl bwerau a roddwyd i ni gan y llywodraeth pryd bynnag y bo hynny'n briodol.

Os ydych chi'n dioddef ymddygiad treisgar neu aflonyddu hiliol / rhywiol cysylltwch â'r Heddlu a/neu eich Swyddog Tai ar unwaith.

Sut ydw i'n adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Mae nifer o ffyrdd i adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gallwch:

- Ffonio
- Ymweld â'r swyddfa
- Sgwennu atom ni
- Anfon e-bost
- Siarad efo aelod o staff ar y safle
- Gofyn am ymweliad cartref
- Llenwi ein ffurflen hysbysu ar-lein

Penodir swyddog i'ch achos chi a byddwch yn cael eich cynghori pryd y bydd ef/hi yn cysylltu â chi.



Beth sy'n digwydd os a phan rwy'n adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Gallai'r swyddog sy'n ymdrin â'ch cwyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol drefnu cyfweiliad efo chi, a fydd yn digwydd un ai yn ein swyddfeydd ni neu yn eich cartref chi. Gwneir hyn er mwyn ein galluogi i gael mwy o wybodaeth am yr achos.

Yn y cyfweiliad cyntaf bydd y swyddog sy'n ymdrin â'r achos yn trafod yr opsiynau sydd ar gael i ddatrys y mater.

Efallai y bydd angen eich help chi ar y Swyddog Tai i gasglu tystiolaeth am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol rydych chi'n ei ddioddef, ac felly gallai fod yn ofynnol i chi lenwi dyddiadur digwyddiadau yn rhoi manylion am y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Trafodir a chytunir hyn efo chi a bydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu. Bydd angen i chi fod yn fodlon efo'r cynllun gweithredu, a bydd y Swyddog Tai yn eich diweddarau'n rheolaidd am y gweithredu sydd yn digwydd.

Bydd eich Swyddog Tai yn cysylltu ag asiantaethau a sefydliadau eraill ar eich rhan, os yw'n briodol, i sicrhau y darperir unrhyw gefnogaeth sydd ei angen i chi.

Mae'n bosib y bydd adegau lle gallwn gynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn eu helpu i newid eu hymddygiad.

Ein nod yw amddiffyn eich cymunedau drwy gymryd camau cyfreithiol yn erbyn unrhyw un sy'n fygythiad i eraill, neu sydd wedi gwrthod rhoi'r gorau i ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

Fel tyst i ymddygiad gwrthgymdeithasol gallwch ein helpu i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y tramgwyddwyr. Gallwn roi cefnogaeth dwys i chi drwy gydol yr achos llys mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- galwadau ffôn neu ymweliadau cartref gan swyddog penodol i drefnu ymweliad i'r llys cyn yr achos er mwyn i chi fod yn gyfarwydd â'r llys a'r hyn a fydd yn digwydd yn ystod yr achos, trefnu cludiant i ac o'r llys ar ddiwrnod yr achos a darparu swyddog penodol i aros efo chi drwy gydol eich ymweliad â'r llys
- gweithio'n agos efo asiantaethau allanol a'r heddlu i sicrhau fod gennych chi gymorth a chefnogaeth ddigonol

Adroddiadau ar berfformiad y Gymdeithas

- byddwn yn cyhoeddi'r camau gweithredu y byddwn yn eu dilyn i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn anfon neges glir na fyddwn yn goddef ymddygiad gwrthgymdeithasol
- byddwn yn rhoi cyfle i chi, pan gytunir i gau'r achos, i roi eich barn am y gwasanaeth a gawsoch. Ein nod yw cyrraedd lefel bodlonrwydd o 90%

Cymodi

Ein dymuniad ni yw datrys anghydfod rhwng cymdogion gynted â phosib. Felly rydym ni'n cynnig y cyfle i drigolion sydd mewn anghydfod â'i gilydd gymryd rhan mewn cymodi. Rydym yn defnyddio gwasanaethau sefydliadau annibynnol sy'n gallu ystyried a cheisio datrys anghydfod, yn ddiuedd ac yn hollol gyfrinachol, heb unrhyw gost i chi.

Mae cymodi yn ffordd i ddwy (neu fwy) ochr ddatrys eu hanghydfod mewn modd heddychlon. Rôl y cymodwyr profiadol yw helpu'r partïon i gyrraedd cytundeb gwirfoddol efo'i gilydd. Nid yw'r Cymodwyr yno i ffafrio yr un ochr neu'r llall, nac i benderfynu pwy sy'n iawn, beio unrhyw un na phenderfynu sut i ddatrys yr anghydfod.

Y partïon ac nid y Cymodwyr sy'n canfod y datrysiad drwy drafod a negodi.

Nid yw cymodi yn rhwymol yn gyfreithiol ac nid yw'n ffurfio rhan o unrhyw ymchwiliad i gwyn.



Cyfiawnder adferol

Mae cyfiawnder adferol yn ddull arall o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n debyg i gymodi, ac mae'n helpu i unioni'r niwed a achoswyd. Mae'n cynnwys y dioddefwr a'r tramgwyddwr, a gall gynnwys teuluoedd, cymunedau a ffrindiau.

Mae dioddefwyr yn cymryd rhan weithgar yn y broses cyfiawnder adferol, tra bo tramgwyddwyr yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Mae'n cynorthwyo i leihau aildroeddu hefyd.

Mae'n rhoi'r cyfle i bawb sy'n ymwneud â'r broses drafod y mater a'i effaith arnynt, a'r pwrpas yw llunio cytundeb sy'n dderbyniol i bawb.

Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu i gynnig cyfiawnder adferol ac mae gennym Swyddogion Tai wedi eu hyfforddi i arwain cyfarfodydd, lle bo'n briodol.

Aflonyddu hiliol a Trais Casineb

Credwn mai canolbwyntio ar safbwynt y dioddefwr yw'r ffordd angenrheidiol i ymdrin efo achosion o aflonyddu hiliol neu drais casineb.

Bydd y Gymdeithas yn gweithredu i sicrhau nad oes unrhyw un o'n trigolion yn dioddef aflonyddu hiliol na thrais casineb ac nad yw ein trigolion yn aflonyddu'n hiliol neu drwy drais casineb ar eraill.

Os ydych chi'n dioddef aflonyddu hiliol neu o drais casineb mae'n bwysig eich bod yn hysbysu eich Swyddog Tai. Yna fe wnawn ni weithio efo chi i ddatrys y broblem.

